BBC Audience Council for Wales
Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **WDI EU CADARNHAU**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN DDARLLEDU'R BBC, LLANDAF, CAERDYDD DYDD GWENER 3 EBRILL 2009

Yn bresennol:

Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa

Janet Lewis Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Sangeet Bhullar
Nicola Branson
Andrew Carter,
Nicola Cockburn
Carl Cooper,
Roy Grant
Rob Humphreys
Andrew Jones.
Alex McMillan
Arun Midha

Staff BBC Cymru Wales:

Menna Richards, Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales
Mark O'Callaghan, BBC Cymru Wales, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes
Clare Hudson, BBC Cymru Wales, Pennaeth Rhaglenni, Saesneg
Keith Jones, BBC Cymru Wales, Pennaeth Rhaglenni, Cymraeg, a Chyfryngau Newydd
Cathryn Allen, BBC Cymru Wales, Pennaeth Datblygu Darlledu
Gareth Powell, BBC Cymru Wales, Prif Swyddog Gweithredu (ar gyfer eitem 32)

Hefyd yn bresennol:

Chitra Barucha, Dirprwy Gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC
Jana Bennett, Cyfarwyddwr BBC Vision (ar gyfer eitem 33)
Geoff Prout, Rheolwr Gohebiaeth, Uned Ymddiriedolaeth y BBC (ar gyfer eitem 29)

Staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC:

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales
Siôn Brynach, Ymgynghorydd Atebolrwydd, Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwy-ydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales

27. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Dafydd Whittal,
Teresa Rees
Rhodri Talfan Davies, BBC Cymru Wales, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd

28. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (YN BREIFAT)

Gofynnodd y Cyngor i'w dymuniadau da am wellhad buan gael eu hanfon at Dafydd Whittall.

Cyfeiriodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol at yr awgrym gan Arweinydd yr Wrthblaid yn San Steffan y dylai'r BBC ymwrthod â'r cynnydd oedd i fod yn ffi'r drwydded deledu eleni yn yr hinsawdd economaidd bresennol gan nodi bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant wedi gwrthod y cynnig.

Fe hysbysodd hi'r Cyngor fod y BBC wedi ennill yr hawliau i ddarlledu Ras Gychod Rhydychen a Chaergrawnt am bum mlynedd o 2010.

Y digwyddiadau diweddar yng Ngogledd Iwerddon a chyflwr enbydus economi'r byd oedd y storïau newyddion allweddol yn ystod y mis blaenorol.

Roedd trafodaeth wedi cael ei chynnal gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ynghylch partneriaethau posibl ac roedd memorandwm dealltwriaeth wedi cael ei arwyddo'n ddiweddar gydag ITV.

Roedd Peter Horrocks wedi'i benodi'n ddiweddar yn bennaeth BBC World Service, gan symud yno o BBC Network News. Roedd Lucy Adams wedi cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr BBC People.

Rhoddodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am ei hymddangosiad gerbron Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol lle cyflwynodd dystiolaeth ochr yn ochr â Chyfarwyddwr Cyffredinol y BBC a Chyfarwyddwr BBC Cymru Wales. Yn y sesiwn honno roedd wedi dod yn amlwg bod safbwynt S4C ynghylch comisiynu newyddion (boed yn Gymraeg neu yn Saesneg) yn dal i fod yn aneglur. Fe hysbysodd hi'r Cyngor bod cyfnewid llythyrau wedi bod bellach rhwng Cadeiryddion y BBC ac S4C a bod cais wedi'i wneud am gyfarfod i drafod y ddarpariaeth newyddion yng nghyd-destun y Cytundeb Partneriaeth Strategol rhwng y BBC ac S4C.

Gofynnodd y Cyngor a oedd 'brigdorri' ffi'r drwydded yn fater a oedd yn dal ar yr agenda. Fe ymatebodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol trwy ddweud ei fod i'w weld fel pe bai wedi llithro i lawr yr agenda, ond nad oedd wedi diflannu'n gyfan gwbl.

Adroddiad chwarterol ar waith Deall Cynulleidfaoedd yr Ymddiriedolaeth

Croesawyd hwn gan y Cyngor.

Cynllun Gwaith Terfynol Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer 2009/10

Cafodd y Cyngor ei hysbysu y byddai'r fersiwn derfynol o Gynllun Gwaith yr Ymddiriedolaeth yn cael ei chylchredeg i aelodau'r Cyngor cyn gynted ag y byddai wedi'i gyhoeddi, ond ei fod yn annhebygol o fod yn sylfaenol wahanol i'r fersiwn ddrafft. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi gwerthfawrogi'r sylwadau a gyflwynwyd gan y Cyngor i'r ymgynghoriad hwn.

Adroddiad ar Fframwaith yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Cynnwys y Gynulleidfa

Byddai hwn yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Adroddiad ar y modd y mae rheolwyr y BBC yn gweithredu'r argymhellion yn yr Adolygiad o Ddidueddrwydd tuag at y Gwledydd.

Roedd Ymddiriedolaeth y BBC wedi gwerthfawrogi'n fawr y cyfraniad a wnaeth y Cyngor tuag at hyn a byddai'r broses hon yn parhau. Gofynnwyd i aelodau'r Cyngor gadw cofnod parhaus o enghreifftiau pan oedd Newyddion Rhwydwaith y BBC wedi methu â chyrraedd y safonau gofynnol o ran cywirdeb a didueddrwydd wrth ohebu ar faterion datganoledig. Nodwyd ei bod yn amlwg bod angen parhau i adolygu'r mater hwn er mwyn sicrhau ei fod yn aros ar agenda Adran Weithredol y BBC.

Fe ymatebodd y Cyngor trwy ddweud bod enghreifftiau o anghywirdeb yn dal i fod, ond bod enghreifftiau hefyd o arfer da lle dylid rhoi clod am gywirdeb. Gofynnodd y Cyngor am gael rhoi'r eitem ar ei agenda ar gyfer mis Hydref er mwyn gallu cynnal trafodaeth ehangach.

Cytunwyd y byddai o gymorth pe bai'r Cyngor yn monitro'r cynnydd yn ystod y cyfnod tan hynny mewn ffordd weithredol. Hysbysodd PLlacACW y Cyngor fod Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi comisiwn i BMRB i gynnal ymchwil bellach i'r mater hwn yn y dyfodol agos ac y gallai'r ymchwil hon, ymhen chwe mis, oleuo penderfyniad y Cyngor ymhellach.

Diffinio prosiect gan Ymddiriedolaeth/Cynghorau Cynulleidfa'r BBC i ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â phortreadu.

Fe hysbyswyd y Cyngor y byddai cynhadledd Cynghorau Cynulleidfa'n cael ei chynnal yn Newcastle upon Tyne ar 14eg Hydref i ystyried y mater hwn gyda'r ymddiriedolaeth. Byddai digwyddiadau allgyrraedd y Cyngor yn cyfrannu tuag at y prosiect hwn mewn ffordd arwyddocaol. Gofynnodd y Cyngor am gynnwys cymunedau ieithyddol fel rhan o'r cymunedau allweddol a fyddai'n cael eu cynnwys ac yn yr adran o'r adroddiad sy'n ymwneud â chwestiynau allweddol, gan fod dwyieithrwydd o bwysigrwydd allweddol yng Nghymru.

Cymeradwyo'r Ddogfen ar yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad

Fe gymeradwyodd y Cyngor ei Ddogfen ar yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad.

29. CYMUNEDAU NAS CLYWIR YN AML A SYSTEM GWYNION Y BBC

Cyflwyniad gan y Rheolwr Gohebiaeth, Safonau Golygyddol Ymddiriedolaeth y BBC

Dywedodd y Rheolwr Gohebiaeth ei bod yn hollbwysig bod cymunedau nas clywir yn aml yn ymwybodol o'r broses ar gyfer cyflwyno cwynion i'r BBC pan eu bod yn teimlo bod angen gwneud hyn. Nid oedd yn wir bod Ymddiriedolaeth y BBC yn erfyn am gwynion, ond yn hytrach y dylai pobl o bob cefndir allu cwyno os oeddent yn teimlo bod angen. Dywedodd y gallai'r Cynghorau Cynulleidfa gyflawni rôl allweddol yn hyn o beth trwy'u gweithgareddau allgyrraedd a bod taflen yn cael ei pharatoi er mwyn iddynt ei defnyddio. Dywedodd hefyd y byddai ymarfer *siopa dirgel* yn cael ei gynnal hefyd yn y dyfodol agos i brofi'r modd y mae'r broses gwynion newydd yn cael ei gweithredu.

Fe holodd y Cyngor ynghylch maint y sampl siopa dirgel a pha un a fyddai cwyn gan grŵp nas clywir yn aml yn cael ei defnyddio hefyd. Dywedodd y Rheolwr Gohebiaeth y byddai asesu llwyddiant grwpiau nas clywir yn aml wrth wneud cwynion yn un agwedd y byddai'r ymarfer siopa dirgel yn canolbwyntio arni.

Gofynnodd y Cyngor a oedd unrhyw wybodaeth gymharol ar gael ynghylch sefydliadau eraill ac a oedd yn eglur beth oedd diben cwyno. Dywedodd y Rheolwr Gohebiaeth fod cyhoeddi canlyniadau cwynion ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn ddefnyddiol yn y cyswllt hwn ac felly hefyd gyhoeddi'r sancsiynau a orfodir pan fo cwynion wedi cael eu cadarnhau gan yr Ymddiriedolaeth.

Gofynnodd y Cyngor a oedd perygl y gallai'r broses gwynion ddod i fod yn fecanyddol yn hytrach nac yn broses i ddatrys materion go iawn. Gofynnodd y Cyngor hefyd a oedd proses i adnabod achwynwyr blinderus. Dywedodd y Rheolwr Gohebiaeth fod yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r perygl y gallai'r broses gwynion ddod i fod yn fecanyddol. Roedd gweithdrefnau'n bodoli i adnabod achwynwyr blinderus ac nid oedd sicrwydd y byddai materion a gyfeirir at yr Ymddiriedolaeth yn arwain at wrandawiad apêl.

Cafodd y Rheolwr Gohebiaeth ei atgoffa hefyd gan y Cyngor bod seithfed maes cydraddoldeb yng Nghymru – sy'n ymwneud â'r Gymraeg – ac y dylid darparu ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd yn rhaid i ystyriaethau sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth gynnwys y Gymraeg.

Dywedodd y Cyngor fod y datblygiad hwn yn un i'w groesawu a'i ysgogi. Roedd y daflen ddrafft fodd bynnag yn cael ei hystyried yn anfoddhaol ar hyn o bryd a dywedwyd y dylai gael ei hailddrafftio er mwyn cyfathrebu'n fwy effeithiol â'r gynulleidfa darged. Dywedodd y Cyngor hefyd fod cwestiwn ynghylch hyfforddiant ar gyfer staff rhaglenni a oedd yn derbyn cwynion trwy gyfeiriadau e-bost rhaglenni. Dylai staff fod yn ymwybodol o'r llwybr y dylid ei ddefnyddio ar gyfer cyfeirio cwynion a sut i wahaniaethu rhwng sylwadau a chwynion.

Fe gytunodd y Cyngor y byddai'n hapus i fod ynghlwm wrth yr agwedd hon ar waith yr Ymddiriedolaeth yn ei weithgarwch allgyrraedd.

ymunodd y rheolwyr â'r cyfarfod

30. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL A MATERION YN CODI

Cytunodd y Cyngor fod y cofnodion yn gofnod llawn a chywir o'r cyfarfod blaenorol.

O ran materion yn codi, fe gytunodd PLlacACW y byddai ymateb drafft ar brosiect Canvas yn cael ei gylchredeg i'r Cyngor maes o law ac yn cael ei gyflwyno erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad ar 17eg Ebrill.

31. ADRODDIADAU

Ymddiriedolwr Cenedlaethol

Fe hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor fod yr Ymddiriedolaeth yn ddiweddar wedi pennu cyllideb y BBC ar gyfer 2009/10 a bod y targedau ar gyfer arbedion yn dal i osod her fawr. Roedd gwendid y bunt yn gwneud gwahaniaeth mewn rhai meysydd.

Gofynnodd y Cyngor a fyddai'n bosib, maes o law, iddynt weld y trefniadau arolygu rheolaeth y cyfeiriodd Syr Michael atynt yn ei lythyr at y Cyfarwyddwr Cyffredinol ynghylch cyllideb *bbc.co.uk*, ac fe'i gwnaeth yn glir y byddai'n parhau i werthuso addasrwydd y ddarpariaeth i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Fe ategodd ei ddyhead (a gytunwyd yn flaenorol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Hydref 2007) i weld atodiad ar gyfer Cymru'n cael ei ychwanegu at Drwydded Gwasanaeth *bbc.co.uk*.

GWEITHREDU: PLlacACW

Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cyhoeddi'i adroddiad ar gasglu ffi'r drwydded deledu ac wedi dod i'r casgliad bod naws y llythyrau oedd yn cael eu dosbarthu ar hyn o bryd gan Drwyddedu Teledu'n amhriodol. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn awr yn ystyried ffyrdd o wella'r gweithdrefnau.

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor fod Ofcom wedi rhoi dirwy o £150,000 i'r BBC am ymddygiad Ross a Brand yn ystod rhaglen Jonathan Ross ar Radio 2 ym mis Hydref 2008.

Fe hysbysodd hi'r Cyngor fod cynlluniau'n mynd rhagddynt yn gyflym ar gyfer gweithgareddau'r BBC yn ystod 2012 gan gynnwys darllediadau o'r Gemau Olympaidd yn Llundain a dathliadau 60ain Jiwbilî'r Frenhines. Roedd symudiad y BBC i Salford i fod i ddigwydd ychydig cyn y Gemau Olympaidd yn ogystal â symudiad yr adran Newyddion i'r rhan o'r Ganolfan Ddarlledu yn Llundain sydd wedi'i hadnewyddu.

Rheolwr Cymru

Dywedodd Rheolwr Cymru ei bod wedi cymryd rhan yn ddiweddar mewn sesiwn gan y Westminster Media Forum.

Fe hysbysodd hi'r Cyngor hefyd ei bod wedi mynychu Pwyllgor Cynulleidfa a Pherfformiad y Ymddiriedolaeth a bod cynllun rhaglenni'r BBC ar gyfer S4C ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod wedi cael ei gymeradwyo yn y cyfarfod hwnnw.

Adroddiad y Bwrdd

Cyhoeddwyd y byddai gweithgarwch cymunedol gan BBC Cymru Wales yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos a hwnnw'n gysylltiedig â'r rhifyn arbennig o *Doctor Who* dros y Pasg. Byddai'r BBC hefyd yn bresennol yn sioe'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol yng Nghaerdydd dros benwythnos y Pasg, a byddai'n darlledu oddi yno. Byddai hwn yn gyfle allweddol i gwrdd ag aelodau o'r gynulleidfa.

Estynnodd y Cyngor ei longyfarchiadau i'r BBC ar ddigwyddiad lansio cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd ac fe ddywedodd ei fod yn argoeli'n ddigwyddiad gwirioneddol werth chweil unwaith eto ym mis Mehefin. Rhoddodd y Cyngor ganmoliaeth hefyd am waith allgyrraedd Cerddorfa Genedlaethol Cymru ac fe ddywedodd fod y cyngherddau yr oedd y gerddorfa wedi'u darparu i'r rheiny ag anghenion arbennig wedi cael eu croesawu'n arbennig. Fe ymatebodd y Rheolwyr trwy ddweud bod trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda'r Gerddorfa am ei weithgarwch allgyrraedd yn y dyfodol ond mai cerddorfa ddarlledu ydoedd yn bennaf.

Cafodd pwysigrwydd strategaeth gymunedol y BBC ei bwysleisio gan y Cyngor ac fe fynegodd ei obaith y byddai'n parhau i gael ei datblygu er gwaethaf y pwysau ar y gyllideb ar hyn o bryd.

Cofnododd y Cyngor ei longyfarchiadau i Dylan Jones am ennill y wobr Personoliaeth Radio yn yr Ŵyl Ddarlledu Geltaidd.

Diolchodd y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg i Owain Arfon Williams a John Roberts am eu gwaith a hwythau wedi bod yn dirprwyo yn ystod absenoldeb mamolaeth Golygydd Radio Cymru, a oedd wedi dychwelyd i'w swydd yn ddiweddar.

Hysbyswyd y Cyngor fod y gwaith yn mynd rhagddo ar ehangiad gwasanaeth newyddion y BBC ar gyfer S4C a bod hwn i fod i gael ei lansio'n gynnar ym mis Mai. Roedd gwaith ymchwil sylweddol wedi cael ei wneud cyn lansiad y gwasanaeth. Roedd y gwasanaeth yn arddangos ymrwymiad y BBC i S4C ac i'w gyfrifoldebau fel Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus i ddarparu gwasanaeth newyddion yn Gymraeg.

Cafodd y ffigyrau gwylio uchel ar gyfer deunydd ar-lein BBC Cymru Wales a gweithgarwch diweddar a wnaed yng nghyswllt cyfeiriad gwaith ar-lein yn BBC Cymru Wales yn y dyfodol eu nodi gan y Cyngor.

Gofynnodd y Cyngor a oedd y BBC wedi dod i unrhyw gasgliadau ynghylch ffigyrau gwylio *Taro Naw*. Fe ymatebodd y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg trwy ddweud bod y ffigyrau gwylio wedi gwella wrth i'r gyfres fynd rhagddi ond bod y ffigyrau gwylio ar y cyfan ar gyfer rhaglenni Materion Cyfoes yn gostwng ac felly bod fformatau newydd yn cael eu hystyried er mwyn gwella'r ffigyrau gwylio.

Cafodd y Cyngor ei atgoffa am y rhaglen *One Family in Wales* a oedd wedi cael ei darlledu'n ddiweddar ac a oedd wedi ysgogi ymateb brwdfrydig, ac wedi bod yn sbardun i ddadl ehangach yng Nghymru ac fe ddywedodd ei fod yn ystyried bod dull thematig o'r math yma dros gyfnod dwys yn llwyddiannus iawn.

32. CYFLWYNIAD AR GYLLIDEB A STRATEGAETH EIDDO BBC CYMRU WALES

Hysbysodd Prif Swyddog Gweithredu BBC Cymru Wales y Cyngor fod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni'n golygu bod yr amgylchedd yr oedd BBC Cymru Wales yn gweithredu oddi mewn iddo'n mynd yn fwyfwy anodd. Hysbysodd y Cyngor fod yr heriau o ran datblygiad busnes yn y flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys cynhyrchu'r bumed gyfres o *Doctor Who*, gwireddu uchelgais i ennill mwy o gomisiynau ar y teledu, y radio ac ar-lein, cyfrannu at y gyfres nesaf o gynigion ar gyfer gwasanaeth BBC lleol, ail-drafod yr hawliau i ddarlledu rygbi, trafodaethau ynghylch y bartneriaeth strategol gydag S4C, canlyn arni â strategaeth eiddo BBC Cymru Wales a gweld Cerddorfa Genedlaethol Cymru'r BBC yn ei chartref newydd yn Neuadd Hoddinott am ei blwyddyn lawn gyntaf.

Gydag uchelgais daw heriau ac roedd y rhain yn cynnwys cynnal ansawdd y rhaglenni a gynhyrchir tra'n bod ar yr un pryd yn cwrdd â chwotâu ac ymrwymiadau anodd ac yn cyflawni mwy o arbedion. Roedd pryder o hyd ynghylch lefelau perthynol y gwariant ar deledu Saesneg a Chymraeg yng Nghymru.

Dywedodd fod y penawdau ariannol yn cynnwys gwariant arian parod wedi'i gyllidebu o £120m yn ystod 2009-10 gyda chyfanswm o 1293 aelod o staff ar gyfer BBC Cymru Wales. Byddai gostyngiadau effeithlonrwydd cynyddrannol o £3.7m yn digwydd ac roedd disgwyl am ofynion ychwanegol i arbed arian. Atgoffwyd y Cyngor y byddai gostyngiad yn lefelau disgwyliedig y buddsoddiadau newydd am fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwrthod y cynigion ar gyfer gwasanaeth BBC Lleol. Roedd yr her o ran arbedion yn cynnwys yr £8m mewn arbedion blynyddol a gyflawnwyd ers 2007-08 (a adwaenir fel y broses *Gwerth am Arian*) a £15m arall y flwyddyn mewn arbedion effeithlonrwydd, sef y targed erbyn 2012-13 (y *Rhaglen Gwella Parhaus*).

Dan y pennawd buddsoddiadau newydd fe hysbyswyd y Cyngor fod y cyfyngiadau cyllidebol a orfodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC ar *bbc.co.uk* yn golygu y byddai cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amlblatfform yn y dyfodol.

Roedd risgiau busnes sylweddol yn cael eu rhagweld yn y blynyddoedd sydd i ddod o ganlyniad i'r gyllideb sydd wedi'i phennu ar hyn o bryd, gan gynnwys

- gweithredu diwydiannol
- anniddigrwydd ymhlith staff
- cynulleidfaoedd – diffygion o ran cyrhaeddiad, cyfran ac ansawdd
- dirywiad yn yr enw da o ganlyniad i'r lefelau buddsoddi mewn rhaglenni teledu Saesneg
- Cyflawni Datganiadau o Bolisi Rhaglenni, cwrdd â chwotâu Ofcom ac archwiliad effeithlonrwydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Fe hysbysodd y Cyngor fod peth wmbredd o waith dichonoldeb wedi cael ei wneud ar strategaeth eiddo BBC Cymru Wales ers ei gyflwyniad diwethaf ym mis Mehefin 2008. Roedd symudiad *Casualty* i Gymru'n golygu bod angen lle ychwanegol o 2011 a byddai hyn yn sicrhau cynaliadwyedd creadigol hirdymor yng Nghymru pe bai'n cael ei ddarparu fel rhan o Bentref Drama. Nid oedd y Ganolfan Ddarlledu yng Nghaerdydd yn addas ar gyfer y diben mwyach ac roedd yn dangos arwyddion o henaint. Roedd angen gwaith cynnal a chadw helaeth na fyddai'n ail-gyflunio'r adeilad o gwbl nac yn gwella'i addasrwydd. Dywedodd hefyd y byddai cydleoli holl gynyrchiadau a gweithgarwch darlledu BBC Cymru Wales o gymorth i strategaeth ehangach ar gyfer Dyfodol Creadigol a fyddai'n galluogi BBC Cymru Wales i gyflwyno'i fusnes aml-haen ar bob platfform, ar draws pob genre ac yn y ddwy iaith.

Dywedodd fod datrysiad yn cael ei geisio ar gyfer drama erbyn 2011 yn barod i ddechrau cynhyrchu *Casualty* yng Nghymru ym mis Ionawr 2012. Byddai cynlluniau ar gyfer canolfan ddarlledu erbyn 2015/16 yn cael eu hystyried yn nes ymlaen. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Dinas Caerdydd yn gefnogol i'r syniad o sefydlu *Prifddinas y Cyfryngau*. Dywedodd fod yr hinsawdd economaidd bresennol yn effeithio ar y cynlluniau ond ei bod hefyd yn dwyn rhai manteision o ran y potensial ar gyfer bargen dda yn yr hirdymor. Roedd y Memorandwm Dealltwriaeth gydag ITV yn cymryd yn ganiataol y byddai cydleoliad yn bodoli erbyn 2015.

Roedd Pwyllgor Cyllid y BBC wedi cymeradwyo gwaith pellach ar y cynnig i sefydlu Pentref Drama ac wedi nodi mai'r datrysiad a ffafrir yn yr hirdymor o bosib fyddai canolfan ddarlledu wedi'i chydleoli â'r pentref drama (Prifddinas y Cyfryngau) ond bod angen yr achos economaidd i'w ategu. Byddai cynlluniau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid cyn bo hir, ac roedd bwriad i geisio mewnbwn pellach gan bartneriaid posib, a chynnal asesiad o risgiau posib.

Dywedodd y Cyngor ei fod yn ystyried y byddai'r cynlluniau i sefydlu *Prifddinas y Cyfryngau*'n dwyn manteision sylweddol i gynulleidfaoedd yng Nghymru ac fe roddodd ganmoliaeth i'r gwaith a oedd wedi cael ei wneud hyd yn hyn ar y cynlluniau.

33. CYFLWYNIAD AM GOMISIYNU RHAGLENNI TELEDU Y TU ALLAN I LUNDAIN A DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL YN BBC VISION

Fe amlinellodd Cyfarwyddwr BBC Vision rychwant ei chyfrifoldebau a oedd yn cynnwys goruchwylio Rheolwyr y Sianeli Teledu. Fe ddynododd mai un o'r mesurau allweddol iddi hi oedd *Cyrhaeddiad* yn hytrach na ffigyrau gwylio rhaglenni'n unig a bod iechyd gwasanaethau BBC hefyd yn cael ei ystyried trwy fesurau megis Mynegeion Arbrisiant.

Y nod ar gyfer BBC One oedd cael y *Cyrhaeddiad* ehangaf sy'n bosibl a darparu rhywbeth ar gyfer pawb, gan adlewyrchu ein treftadaeth ond gan hefyd fynd â chynulleidfaoedd ar anturiaethau newydd.

Roedd BBC Two, tra bod y sianel yn darparu dyfnder a sylwedd, yn cael ei hystyried yn lle ar gyfer adloniant, er mwyn denu cynulleidfa ehangach o blith yr oedolion ac arddangos yr ystod ehangaf o raglenni gwybodaeth, gan ganolbwyntio ar y rheini rhwng 22 a 44 mlwydd oed.

Roedd BBC Three yn amcanu at fod yn frand cyfryngau ieuenctid dewraf Prydain (yn bennaf ar gyfer y rhai 16-34 mlwydd oed) a darparu lle i ddatblygu doniau a syniadau newydd.

Roed BBC Four yn cael ei hystyried yn sianel sy'n cynnig arlwy gyfoethocach ar gyfer y gwyliwr mwy craff – gan gael ei huno gan agwedd a chwilfrydedd ac amcanu at ysgogi a herio gyda chraffter ac asbri.

Nod CBBC oedd darparu cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer y rhai rhwng 0 a 12 mlwydd oed.

BBC HD oedd y sianel i ddarparu rhaglenni yn yr ansawdd darlleeid161.40 0 7.98 90 220.2803 Tm0 Tc0 Tw( )T

oedd cynrychioli a phortreadu'n ddigon da ar eu pennau'u hunain – nid oedd cynulleidfaoedd am i ansawdd gael ei aberthu.

Roedd yr *Adolygiad o Gyflenwad y Rhwydwaith* wedi adnabod atebion posib i rai o'r materion sy'n gysylltiedig â phortreadu ac roedd datrysiadau creadigol yn cael eu ceisio nad oeddent yn aberthu ansawdd ac a oedd yn dysgu o'r hyn a oedd wedi digwydd yn flaenorol. Roedd gwrando ar gynulleidfaoedd yn hollbwysig ac roedd partneriaethau creadigol yn cael eu sefydlu rhwng Comisiynwyr a chynhyrchwyr gweithredol y tu allan i Lundain tra bo ysgrifenwyr diledryw hefyd yn cael eu meithrin. Fodd bynnag, roedd serendipedd hefyd yn rhan o'r cymysgedd, ac fe gyfeiriodd at *Gavin and Stacey* fel enghraifft lle'r oedd y portread o'r *Barri* ac *Essex* wedi bod yn gyd-ddigwyddiad hapus yn hytrach na chanlyniad wedi'i gynllunio.

Fe ddywedodd fod Drama yng Nghymru wedi bod yn llwyddiant hyd yn hyn ac y byddai bod symudiad *Casualty* - rhaglen a ddarlledir drwy gydol y flwyddyn - i Gymru'n gwella cynaliadwyedd ac yn ehangu cyfleoedd i ddatblygu talent ymhellach.

Roedd Cymru hefyd yn adnabyddus am ei thraddodiad ffeithiol cryf gyda rhaglenni megis *Tribe*, *Coal House* a *Rivers* oll yn cyfrannu at y momentwm.

Gan edrych i'r dyfodol fe ddywedodd fod *The One Show* yn adeiladu ar draddodiad cryf mewn newyddiaduraeth defnyddwyr. Roedd *Crimewatch*, a fyddai'n symud i Gymru cyn bo hir, yn ceisio mynd ati ymhellach i gryfhau canolfan ragoriaeth mewn cynhyrchu rhaglenni Ffeithiol. Fe ddywedodd fod cynlluniau hefyd i ddatblygu rhaglenni carreg-milltir uchelgeisiol trwy gydweithio rhwng comisiynwyr lleol a chomisiynwyr y Rhwydwaith.

Fe orffennodd Cyfarwyddwr Vision ei chyflwyniad trwy ddangos clip i'r Cyngor o'r gyfres sydd ar fin ymddangos, *Human Planet*, a gynhyrchwyd ar y cyd â chwmnïau eraill, ac a fyddai'n cwmpasu safbwynt byd-eang; a chlip o rifyn arbennig o *Torchwood* a fyddai'n cael ei ddarlledu yn y dyfodol agos.

Fe ddiolchodd y Cyngor i Gyfarwyddwr Vision am ei chyflwyniad gan bwysleisio pwysigrwydd portreadu i gynulleidfaoedd yng Nghymru – roedd hwn yn bwynt a gafodd ei wneud ym mhob un o ddigwyddiadau allgyrraedd y Cyngor. Gofynnwyd iddi hefyd am sicrwydd fod y cwota ar gyfer comisiynau y tu allan i Lundain yn *derfyn isaf* yn hytrach nag yn *derfyn uchaf*. Roedd yn hapus i roi sicrwydd i'r Cyngor ac fe ddywedodd y byddai syniadau da'n cael eu croesawu bob amser. Fe ddywedodd fodd bynnag ei bod yn meithrin doniau ysgrifennu a fyddai'n rhoi adlewyrchiad gwirioneddol o wreiddiau daearyddol ysgrifenwyr.

Gofynnwyd iddi am ei chynlluniau i feithrin a datblygu prosiectau pellach yng Nghymru lle'r oedd cronfa amlwg o dalent. Dywedodd Pennaeth Rhaglenni Cymru fod cynnydd mewn hyder o ganlyniad i lwyddiant yn cyfrannu tuag at hyder cynyddol i gyflwyno syniadau a fyddai'n rhoi hwb i'r portread o Gymru. Dywedodd Cyfarwyddwr Cymru hefyd fod ysgrifenwyr unigol megis Russel T Davies wedi mynd allan o'u ffordd i feithrin a datblygu ysgrifenwyr ifainc.

Gofynnodd y Cyngor i ba raddau yr oedd Cyfarwyddwr Vision yn targedu ystod oedran yn ei rhaglenni. Fe ymatebodd trwy ddweud nad oedd gan BBC One ystod oedran benodol yr oedd yn ei thargedu gan fod angen i'r sianel gofleidio ystod oedran eang ond bod rhai o'r sianeli eraill yn mynd ati'n fwy i dargedu.

Gofynnodd y Cyngor, gan fod y cyflwyniad a roddwyd wedi pwysleisio agweddau cadarnhaol, a allai Cyfarwyddwr Vision hefyd nodi rhai anawsterau posib yn y dyfodol. Fe ymatebodd trwy ddweud fod y BBC yn ei chael yn fwyfwy anodd targedu cynulleidfaoedd ifancach a oedd yn gwylio llai o deledu ar y cyfan beth bynnag. Nid oedd tystiolaeth ychwaith bod pobl

yn dechrau gwylio mwy o deledu wrth fynd yn hŷn ac roedd perygl felly y gallai pobl ifanc yn syml fynd allan o'r arfer o wylio'r teledu. Fe soniodd hefyd am gynaliadwyedd rhagoriaeth greadigol fel her bosib arall – er ei bod yn pwysleisio nad oedd hwn yn fater i BBC Cymru Wales. Fe hysbyswyd y Cyngor y gallai'r dirwasgiad economaidd presennol arwain at broblemau difrifol i sector y cynhyrchwyr teledu annibynnol rhanbarthol a fyddai'n niweidiol i'r diwydiant cyfan.

34. MATER SY'N FLAENORIAETH I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Cytunodd y Cyngor mai'i adolygiad blynyddol o berfformiad gweithgareddau'r BBC yng Nghymru ddylai fod yn flaenoriaeth ganddo.

35. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Fe hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor ynghylch y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor a digwyddiad allgyrraedd y noson flaenorol yn Rhosllannerchrugog. Fe hysbyswyd y Cyngor hefyd ynghylch digwyddiad allgyrraedd y Cyngor a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 9fed Ebrill ac a oedd yn cael ei hwyluso gyda chymorth Age Concern.

***